# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 179(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Peter Fox (Mynwy): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ynghylch ei hasesiad o Gyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru yr wythnos nesaf?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.14 i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

**NNDM8441** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Samuel Kurtz (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn lle James Evans (Ceidwadwyr Cymreig).

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91 yn ceisio cytundeb y Senedd i gyflwyno Bil Aelod - Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru)

(60 munud)

**NDM8422** James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff James Evans AS gyflwyno Bil i roi effaith i'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2023 o dan Reol Sefydlog 26.91A.

## 7 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil ar reoleiddio casglwyr dyledion

(30 munud)

**NDM8419** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar reoleiddio casglwyr dyledion yng Nghymru ymhellach.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) gosod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio casglwyr dyledion sydd wedi cofrestru i god ymddygiad sy'n amddiffyn pobl fregus mewn argyfwng costau byw yn unig;

b) cyflwyno cod ymddygiad Cymru gyfan ar gyfer yr holl asiantau casglu dyledion sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru; ac

c) grymuso awdurdodau safonau masnach lleol ymhellach i weithredu yn erbyn asiantau sy'n camarwain preswylwyr ynghylch eu pwerau a hawliau preswylwyr.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Amaeth

(60 munud)

**NDM8440** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y rôl eithriadol y mae'r sector amaethyddol yn ei chwarae yng Nghymru, gydag amaethyddiaeth yn cyfrannu at dros 220,000 o swyddi.

2. Yn nodi, am bob £1 a fuddsoddir yn y sector amaethyddol, y cynhyrchir £9 i'r economi ehangach.

3. Yn dathlu'r rôl y mae ffermydd teuluol yn ei chwarae wrth gefnogi'r Gymraeg a gwead cymdeithasol cefn gwlad Cymru.

4. Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno toriadau i gyllideb 2023-24 materion gwledig, sef cyfanswm o £37.5 miliwn.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau na fydd unrhyw doriadau yn cael eu gwneud i gyllideb cynllun y taliad sylfaenol ar gyfer 2024.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cytuno ag egwyddor Llywodraeth Cymru fod yn rhaid i’w pholisi gadw ffermwyr Cymru ar y tir.

2. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnal Cynllun y Taliad Sylfaenol yn 2023 ac i beidio â dilyn y penderfyniad yn Lloegr i leihau taliadau i ffermwyr hyd at 55 y cant.

3. Yn gresynu at y niwed a achosir i allu ffermio yng Nghymru i greu gwerth economaidd a swyddi yn sgil:

a) polisi Llywodraeth y DU ar fewnfudo ers ymadael â'r UE;

b) deiliadaeth drychinebus Prif Weinidog blaenorol y DU;

c) penderfyniad Llywodraeth y DU i dynnu £243 miliwn oddi ar y cyllid ar gyfer cefnogi ffermydd yng Nghymru; a

d) penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â rhoi ymrwymiad hirdymor o ran cyllid i gefnogi ffermydd.

4. Yn cytuno bod angen cyfnod pontio teg a chyflym tuag at ddulliau ffermio cynaliadwy ar draws Cymru, er mwyn atgyfnerthu sefyllfa economaidd ffermwyr Cymru ac er mwyn osgoi effeithiau gwaethaf yr argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Ionawr 2024

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 06/12/2023 i'w hateb ar 13/12/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A'R PRIF CHWIP

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

1 OQ60418 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar rôl Llywodraeth Cymru yn y cynllun uwch-noddwr ar gyfer ffoaduriaid o Wcrain?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

2 OQ60402 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y tywydd oer diweddar ar bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd?

**Buffy Williams** *Rhondda*

3 OQ60415 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Post Brenhinol ynglŷn â sut y bydd yn ateb y galw dosbarthu uwch yn Rhondda y Nadolig hwn?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

4 OQ60410 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl hŷn yng Nghymru gyda'r costau byw cynyddol?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ60429 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ffoaduriaid?

**Ken Skates** *De Clwyd*

6 OQ60405 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar y cynnydd o ran gwneud Cymru'n genedl noddfa?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

7 OQ60437 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ariannu swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu?

8 **Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

OQ60436 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i fynd i'r afael ag effaith tlodi plant ar gyrhaeddiad yn yr ysgol, yng ngoleuni canlyniadau PISA 2022?

9 **Peter Fox** *Mynwy*

OQ60433 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar gyfleoedd i godi eu hunain allan o dlodi?

10 **Sian Gwenllian** *Arfon*

OQ60408 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu taclo trais yn erbyn menywod ar y stryd ym Mangor?

11 **Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ60407 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gydag Ofgem ynghylch taliadau sefydlog yng Nghymru?

12 **Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

OQ60413 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl o gymunedau difreintiedig yn ystod yr argyfwng costau byw parhaus y gaeaf hwn?

## CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

1 **Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

OQ60414 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o degwch y system etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd?

2 **Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

OQ60423 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch yr effaith ar Gymru yn sgil Fframwaith Preifatrwydd Data yr UE a'r UD?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

3 OQ60420 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r goblygiadau cyfreithiol i Gymru sy'n deillio o Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth y DU?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

4 OQ60443 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru am y pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru i helpu menywod a anwyd yn y 1950au y gwrthodwyd eu pensiynau iddynt?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5 OQ60404 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch effaith y Bil Dioddefwyr a Charcharorion ar drigolion Cymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

6 OQ60444 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion cyfraith y DU ynghylch diweddariad Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd ar eu hymchwiliad i'r modd y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyfathrebu newidiadau i oedran pensiwn y wladwriaeth?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

7 OQ60427 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 a fydd yn machlud cyfraith yr UE ar ddiwedd y flwyddyn hon, ar gyfraith Cymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

8 OQ60442 **(w)**

Pa gyngor cyfreithiol mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi ei roi i’r Llywodraeth o ran pa elfennau o ddeddfwriaeth cyflogaeth sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Lywodraeth Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

9 OQ60430 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r effaith y bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ei chael ar ymddiriedaeth mewn gwleidyddion?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

10 OQ60426 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) sydd wedi'i dynnu'n ôl?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

11 OQ60431 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith bosibl Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar y nifer sy'n pleidleisio?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

12 OQ60441 **(w)**

Pa gyngor cyfreithiol mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei roi i'r Llywodraeth ynghylch eu cyfraniad i ymchwiliad COVID y Deyrnas Unedig?

## COMISIWN Y SENEDD

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

1 OQ60416 **(e)**

Beth y mae'r Comisiwn yn ei wneud i sicrhau y gall y Senedd barhau i gyfarfod fel senedd hybrid?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

2 OQ60425 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Comisiwn y Senedd wedi'u cael gyda'r Bwrdd Taliadau ynghylch cyflogau staff cymorth yr Aelodau?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ60445 **(w)**

Pa gamau mae'r Comisiwn wedi'u cymryd i sicrhau bod cronfa pensiwn ddim yn ariannu datgoedwigo?